

## PUW, PUE, PUGH, (TEULU), o'r Penrhyn Creuddyn, Sir Gaernarfon

Ymddrinir yma â rhai o aelodau'r teulu yn eu trefn amsereddol.

### GWILYM PUW (c. 1618 - c. 1689), llenor Catholig, milwr, meddyg, ac aelod o Urdd y Benedictiaid

Trydydd mab Phylip Puw (isod) a Gaynor Gwyn o'r Penrhyn yn y Creuddyn, Sir Gaernarfon, a brawd Robert Puw (isod). Yr oedd yn gapten ym myddin Siarl I yn Raglan yn 1648, ac wedi cyfnod o grwydro ar y Cyfandir ymunodd ag Urdd y Benedictiaid yn S. Edmwnd, Paris, yn 1660, pryd y dychwelodd i Gymru i genhadu ac i dreulio gweddill ei oes yn sir Fynwy. Gwnaeth ei gartref yn y Blackbrook, trigfan hen deulu Pabyddol y Morganiaid, ac, yn ddiweddarach, y teulu Bodenham. Canodd gerddi ar fesurau caeth a rhydd. Lluniodd ddau gywydd arbennig iawn, sef ' Buchedd em harglwydd lessu Grist ' (2,000 o linellau) a ' Llwyrywys Penrhyn Ai Mawl.' Cyfansoddodd dair awdl ac y mae ganddo emynau ar ffurf englynion. Ond diffygiol iawn ydyw crefft ei gerddi caeth hyn. Bychan ydyw cyfanswm ei gerddi rhydd. Y bwysicaf ohonynt ydyw ' Buchedd Gwenn Frewu Santes ' ar fesur tri thrawiad. Cyfieithodd *The Jesus Psalter* (arg. 1624) yn Gymraeg, a pharatôdd gatecism Cymraeg a Lladin, sef ' *Crynodeb or Athrawiaeth Gristnogawl.*' Cadwyd ei waith mewn llawysgrifau, sef NLW MS. 4710 a 13167, a thystia'r rheini hefyd ei fod yn feddyg, ac efallai yn delynor.

### PHYLIP PUW (bu farw 1637), anghydfurfiwr Catholig

Ail fab Robert Puw (isod) o'r Penrhyn yn y Creuddyn, Sir Gaernarfon. Priododd Gaynor Gwyn, merch Syr Rhisiart Gwyn, Caernarfon, ac Elen Gruffydd o'r Penrhyn, Is-y-garth, sef yres [Syr William Gruffydd, y siambrlen](#). Yr hanes cyntaf sydd gennym amdano ydyw ei fod yn Ogof Rhiwledyn gyda'i dad adeg argraffu *Y Drych Cristianogawl* yn y flwyddyn 1585. Cofnodir hefyd iddo gael ei erlid gan [Lewis Bayly, esgob Bangor](#). Hyd y gwyddys, treuliodd ei oes yn y Creuddyn. Claddwyd ef, ynghyd â'i wraig, yn eglwys Rhos. Bu iddynt 12 o blant, pump yn ferched a saith yn fechgyn. Listiodd y mab hynaf, Rhisiart, ym myddin Siarl I yn ystod y Rhyfel Cartref; ffaith arall a wyddom amdano ydyw iddo farw yn yr India. Yr enwocaf o'r meibion ydyw [Robert Puw](#), [Gwilym Puw](#), a [Siôn Puw](#). Cafodd y tri mab arall fywyd o alltudiaeth. Aeth Gruffydd i Iwerddon. Bu farw Herbert yn Ffrainc ac Ifan yn Sbaen.

### ROBERT PUW (bu farw c. 1629), anghydfurfiwr Catholig

Ail fab Huw ap Rheinallt ab Ieuan o'r Penrhyn yn y Creuddyn, Sir Gaernarfon. Priododd Sian Bwcle, merch [Syr Rhisiart Bwcle](#). Tystia ei yr, [Gwilym Puw](#), iddo gael ei addysg yn Rhydychen. Aeth yn fyfyrwr i Ysbyty'r Middle Temple, 30 Tachwedd 1567 (*Register of Admissions to the Middle Temple*, i, 32). Yr oedd yn r o grefyddolder mawr. Ymlynodd wrth y ffydd Gatholig er gwaethaf pob erlid. O 1580 ymlaen tyfodd cyfathrach agos rhyngddo a theulu Pabyddol Houghton o Lea Hall yn ymyl Preston, Lancashire. Pan ddechreuodd yr [iarll Pembroke](#), llywydd cyngor y gororau, ei ymgyrch yn erbyn y Catholigion Cymreig yn 1586, cawn fod Robert Puw a'i deulu, a [William Davies](#), y merthyr, wedi bod yn ymguddio yn Ogof Rhiwledyn ar y Gogarth Bach am dri chwarter blwyddyn ac wedi ymgymryd ag argraffu *Y Drych Cristianogawl* yno. Dihangodd oddi yno i Lancashire ac yna i Cowdray yn Sussex i gartref iarll Montague. Edrychid arno adeg cynllwyn Syr William Stanley fel un y gellid dibynnu arno i arwain gwrthryfel yng Ngogledd Cymru. Beth bynnag, wedi blynyddoedd yn ' treiglaw Gwledudd,' carcharwyd ef. Nid yw'n annhebyg nad ef ydyw'r Robert Puw a gyhuddwyd o anghydfurfiaeth ym mhedwaredd flwyddyn teyrnasiad Iago I. Daeth i adnabyddiaeth bersonol â'r brenin, a sicraodd hwnnw iddo ryddid i addoli fel y mynnai, a dychwelodd Robert i'r Creuddyn i dreulio 26 blynedd olaf ei oes. Bu farw tua'r flwyddyn 1629, a chladdwyd ef a'i wraig yn eglwys Rhos.

Dylid nodi nad yr un yw ef â'r Robert ap Hugh a fu'n aelod seneddol tros sir Ddinbych yn 1559, yn siryf y sir honno yn 1562 a siryf Sir Gaernarfon yn 1560. Ei ewythr (brawd ei fam) ydoedd hwnnw, Robert ap Hugh ap Robert o Gefnygarlleg (o linach Bryn Eury).

### ROBERT PUW (alias ROBERT PHYLIP) (1609 - 1679), awdur, offeiriad, a merthyr Catholig

Ail fab Phylip Puw (uchod) a Gaynor Gwyn o'r Penrhyn yn y Creuddyn, Sir Gaernarfon, a brawd Gwilym Puw (uchod). Bu dan addysg yng ngholeg y Jesuwitiaid yn S. Omer; ymaelododd yn y coleg yn 1628. Wedi cyfnod o wasanaeth yn gaplan ym myddin y Saeson yn yr Iseldiroedd, daeth ar genhadaeth i Gymru, ond torrodd ar ei gynlluniau wrth ymuno â byddin Siarl I yn erbyn y Seneddwy'r a thrwy ymddeol o Gymdeithas yr Iesu. Yn fuan wedi'r Rhyfel Cartref cawn ef ym Mharis yn astudio cyfraith wladol ac eglwysig. Dywaid ei frawd, Gwilym, ei fod yn gyfarwydd ag amryw ieithoedd, ac enwir Lladin, Groeg, Hebraeg, Eidaleg, Sbaeneg, Ffrangeg, Almaeneg, Saesneg, a Chymraeg. Yn 1655 penodwyd ef gan y Pab yn ' protionotarius publicus apostolicus.' Bu'n athro ar Harri, dug Caerloyw, ac yn gaplan i'r frenhines Henrietta Maria. Pan adferwyd y Stiwardiaid, gwnaeth ei gartref gyda'r [iarll Powys](#) yng nghastell Powys. Yno, ond odid, y trigai yn 1659 pan gyhoeddodd ym Mharis *De Anglicani Cleri Retineda in Apostolicam Sedem observantia*, ac yn 1661 pan ymddangosodd ei ail lyfr yn *Excantationis Amuletum*. Ynddynt ymosodai ar ddaliadau Thomas White neu Blackloe yngl n â threfn eglwysig yn yr Eglwys Gatholig yn Lloegr ar y pryd, a'r un modd yn ei gyhoeddiad diweddarach *Blacklo's Cabal discovered* (ail arg., 1680). Ymddangosodd llyfr arall o'i waith yn 1676, sef *Barthonensium et Aquisgranensium Comparatio, rebus adjunctis illustratis*. Iddo ef y priodolir *Elenchus Elenchi: sive Animadversiones in Georgei Batei, Cromwelli parricidae aliquando protomedici,*

*Elenchum motuum nuperorum in Anglia* (Paris, 1664), ac ystyrir ef yn gydawdur *The English Papist's Apologie*, 1666. Os cymerwn air Wood, erys peth o'i waith mewn llawysgrif. Pa fodd bynnag oherwydd tybied bod a wnelai ef â chynllwyn Titus Oates, fe'i carcharwyd yn Newgate, lle y bu farw ym mis Ionawr 1679.

### SION PUW, neu IOANNES PHILIPPI (1620 - 1645), Pabydd

Pedwerydd mab Phylip Puw a Gaynor Gwyn o'r Penrhyn yn y Creuddyn, Sir Gaernarfon, a brawd Robert a Gwilym Puw. Ymaelododd yng Ngholeg y Saeson, Rhufain, yn 1640, ac yno y bu farw ym mis Gorffennaf 1645.

## Ffynonellau

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1957

## Darllen Pellach

Coflein: [Penrhyn Old Hall](#)

Gill Jones a Ann Morgan, *Penrhyn Old Hall* ([Discovering Old Welsh Houses group 2019](#))

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804746](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

